Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Spring Meadows

Nodau personol sy’n cael effaith fawr




## Cefndir

Cartref preswyl bach yn Abertawe yw Spring Meadows (Manorleigh) sy'n cael ei redeg gan deulu ac yn darparu gofal i hyd at wyth oedolyn ag anableddau dysgu. Mae gan y cartref dîm sefydlog o staff sy'n adnabod y preswylwyr yn dda ac yn eu helpu i ddatblygu annibyniaeth drwy weithgareddau pwrpasol.

## Beth mae'n ei wneud yn wahanol?

Maen’t yn rhedeg dau gynllun cysylltiedig sy'n troi cyfleoedd dysgu beunyddiol yn falchder, pwrpas ac annibyniaeth.

- **Fy nodau personol:** Mae pob preswylydd yn dewis un nod personol ar gyfer y flwyddyn (e.e. gwneud paned o de, dysgu am arian, dewis dillad addas ar gyfer y tywydd). Mae'r staff yn adolygu cynnydd gyda'r preswylwyr a’i theulu bob tri mis. Mae pawb yn cael tystysgrifau am ymdrech a chynnydd, gyda noson wobrwyo i ddathlu eu cyflawniadau bob mis Rhagfyr.

- **Blwch post cyflawniadau:** Mae'r preswylwyr, y staff a pherthnasau yn ysgrifennu ‘cardiau post cyflawniad’ pryd bynnag y bydd unigolyn yn dangos caredigrwydd, yn rhoi cynnig ar rywbeth newydd neu'n gwneud cynnydd. Mae postio'r cerdyn yn eu cymell ac yn cael effaith ar unwaith. Ar ddiwedd y flwyddyn, caiff ei agor a chaiff y cyflawniadau eu darllen yn uchel yn y noson wobrwyo.

Gyda'i gilydd, mae'r cynlluniau syml hyn yn rhoi anogaeth reolaidd, nodau clir a chydnabyddiaeth ystyrlon i'r preswylwyr gan eu helpu i fagu hyder a meithrin sgiliau.

## Effaith ...

- Maen’t wedi gwella hyder a chymhelliant yn y cartref, gyda'r preswylwyr yn cael anogaeth a chydnabyddiaeth reolaidd gan y staff, aelodau o'u teulu a'u cyfoedion
- Mae'r preswylwyr yn parod i roi cynnig ar bethau newydd, i feithrin sgiliau ac i weithio tuag at fod yn fwy annibynnol
- Dywed staff a pherthnasau eu bod yn gweld mwy o falchder a phwrpas ym mywydau beunyddiol y preswylwyr

**Ochr yn ochr â'r effeithiau cyfunol hyn, mae'r preswylwyr wedi cyflawni cerrig milltir personol:**

- Roedd un preswylydd wedi datblygu o fethu ag adnabod darnau arian i dalu'n annibynnol
- Mae preswylydd arall a ddewisodd “rhoi cynnig ar bethau newydd” bellach yn mynd i glybiau cymunedol ac wedi gwneud ffrindiau newydd
- Roedd un preswylydd wedi dysgu sut i ddewis dillad ar gyfer y tywydd, gan ei helpu i aros yn gyfforddus a’n iach

> *“Mae pob cyflawniad yn werth ei ddathlu, boed yn fach neu'n fawr!”*